

# Fframwaith Rhifedd

## Blwyddyn 5

### Adnabod prosesau a chysylltiadau

- trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd
- adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiaid
- dewis mathemateg a thechneg briodol i'w defnyddio
- dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas
- dewis strategaeth feddyliol neu ysgrifenedig priodol a gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell
- amcangyfrif a delweddu maint wrth fesur a defnyddio'r unedau cywir

### Cynrychioli a chyfathrebu

- egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol
- mirinio dulliau anffurfiol o gofnodi cyfrifiadau ysgrifenedig, gan symud i dulliau cyfrifo ffurfiol pan fydd wedi datblygu digon i wneud hynny
- defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol
- dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas

### Adolygu

- dewis o blith ystod gynyddol o strategaethau gwirio er mwyn penderfynu a yw atebion yn rhesymol
- dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol, gan gynnwys yr hyn y mae'r cyfrifiannell yn ei arddangos
- defnyddio data i ddod i gasgliadau, a sylweddoli y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol



### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau rhifedd)...

- darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100 000
- cymharu degolion 1 lle degol a 2 le degol
- defnyddio amrywiaeth o strategaethau meddwl i alw tabl llusosi 2, 3, 4, 5, 6, 8 a 10 i gof a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu
- llusosi a rhannu rhifau a degolion â 10 a 100
- defnyddio'r ddealltwriaeth o gywerthedd ffracsiynau a degolion syml wrth fesur a chyfrifo, e.e.  $\frac{1}{2} = 0.5$ ,  $1/10 = 0.1$
- cyfrifo symiau ffracsiwn yn seiliedig ar ffracsiynau unedol, e.e.  $1/8$  o 24 = 3, felly  $5/8$  o 24 = 15
- defnyddio strategaethau dyblu a haneru wrth weithio gyda chyfrannau syml, e.e. ryseitiau
- canfod gwahaniaethau o fewn 1 lle degol, e.e. wrth fesur
- adio a thynnu rhifau 3 digid drwy ddefnyddio dull ysgrifenedig priodol
- llusosi a rhannu rhifau 3 digid â rhif 1 digid
- gwirio atebion drwy ddefnyddio gweithrediadau gwrthdro
- amcangyfrif drwy dalgrynnu i'r 10, y 100 neu'r 1 000 agosaf
- cymharu a rhoi eitemau mewn trefn o ran cost, hyd at £1 000
- adio a thynnu rhifau sy'n cynnwys 2 le degol yng nghyd-destun arian (cyfanswm llai na £100)
- ymdrin ag arian, cymharu costau mewn gwahanol siopau a phenderfynu beth gellir ei brynu gyda chyllideb benodedig
- deall bod cyllidebu'n bwysig



### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau mesur)...

- cofnodi drwy ddefnyddio nodiant degol, e.e. 4.2mm
- darllen clorian sy'n cynnwys 10 ymranriad cyfartal rhwng pob prif uned
- defnyddio trawsnewidiadau syml, e.e.  $\frac{1}{4}$  km = 250m
- mesur perimedrau
- darllen a defnyddio clociau analog a digidol
- defnyddio stopwatsis i amseru digwyddiadau mewn munudau ac eiliadau, a rhoi'r canlyniadau mewn trefn
- cyflawni gweithgareddau ymarferol sy'n cynnwys digwyddiadau wedi'u hamseru ac egluro pa uned amser sydd fwyaf priodol
- mesur a chofnodi'r tymheredd lle ceir darlleniadau positif a negatif
- cyfrifo'r gwahaniaeth rhwng gwahanol dymhereddau, gan gynnwys rhai lle bydd y tymheredd yn codi ac yn gostwng heibio 0°C



### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau data)...

- cyflwyno data drwy ddefnyddio:
  - rhestrau, siartiau cyfrif, tablau a diagramau, tablau amledd
  - siartiau bar, siartiau data wedi'u rhannu i grwpiau, graffiau llinell, graffiau trawsnewid
- echdynnu a dehongli gwybodaeth o ystod gynyddol o ddiagramau, amserlenni a graffiau, gan gynnwys siartiau cylch syml
- defnyddio cyfartaleddau ac ystod i ddisgrifio set ddata.

